**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 27 Medi, 2016 am 1.00 pm**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Sir S. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir: D. Dovey, D. Evans, R. Hayward, D. Edwards, J. Prosser, A. Watts a S. White.

**Pwyllgor Cynllunio**: R. Edwards, R. Harris, R.J. Higginson, P. Murphy a M. Powell.

Y Cynghorydd Sir R.J.W. Ynys Las - Aelod o'r Cabinet
Y Cynghorydd Sir V. Smith - arsylwi

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Mark Hand | Head of Planning, Housing and Place-Shaping |
| Martin Davies | Planning Policy Manager |
| Rachel Lewis | Principal Planning Policy Officer |
| Shirley Wiggam | Senior Strategy & Policy Officer |
| Philip Thomas | Development Services Manager |
| Mark Howcroft | Assistant Head of Finance |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir: A. Wintle, P. Clarke

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni wnaeth Aelodau unrhyw ddatganiadau buddiant.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**2.1. Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu - 9 Mehefin, 2016 .**

Cafodd cofnodion Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2016 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Cyflwynir diweddariad ar Skutrade i gyfarfod mis Tachwedd o'r Pwyllgor Ethol Economi a Datblygu.
- Cynhelir seminar am 2.00pm ar 3 Hydref 2016 ar ledaenu band eang cyflym iawn.

**2.2. Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu - 14 Gorffennaf, 2016 .**

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2016 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Derbynnir y ffocws Twristiaeth yng nghyfarfod mis Hydref y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu fydd yn cynnwys craffu ar ddata STEAM a thrafodaeth ar arwyddion brown.

- Rhoddir diweddariad ar gynllunio Lle Cyfan i gyfarfod o'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol.

**3. <u>Adroddiad Arolygiad Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy.</u>**

**<u>Cyd-destun:</u>**

Amlinellu diben, canfyddiadau allweddol a chasgliadau ail Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol.

Gwahoddwyd y Pwyllgor Cynllunio i fynychu'r cyfarfod ynghyd â'r Pwyllgor Dethol i graffu'r adroddiad

**<u>Materion Allweddol:</u>**

Cafodd Cynllun Datblygu Lleol 2011-2021 Sir Fynwy ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2014. Mae angen i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol fel rhan o broses statudol y cynllun datblygu.

<u>Yr Adroddiad Monitro Blynyddol</u>

Yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw'r sail ar gyfer monitro effeithlonrwydd y Cynllun Datblygu Lleol ac yn y pen draw benderfynu os oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Mae'n anelu dangos i ba raddau y caiff strategaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol eu cyflawni a ph'un ai yw polisïau'r Cynllun yn gweithio'n effeithlon. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r effaith a gaiff y Cynllun Datblygu Lleol ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir ac yn dynodi unrhyw newidiadau cyd-destunol sylweddol a all ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r cynllun.

Hwn yw'r Adroddiad Monitro Blynyddol ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ac mae'n seiliedig ar y cyfnod 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016.

<u>Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol</u>

Mae polisi'r Cynllun Datblygu Lleol a fframweithiau monitro gwerthuso cynaliadwyedd yn ffurfio sail yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu sut mae polisïau strategol y Cynllun a pholisïau cefnogi cysylltiedig yn perfformio ar y targedau monitro allweddol a ddynodwyd a'r canlyniadau a ph'un ai yw strategaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i ffurfio barn wybodus am gynnydd y Cynllun wrth gyflawni'r targedau/monitro canlyniadau a pholisïau yn ystod y cyfnod monitro yma.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 27 Medi, 2016 am 1.00 pm**

<u>Canfyddiadau Allweddol</u>

Mae Adran 5 yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhoi asesiad o berfformiad y Cynllun. Mae canlyniadau'r broses monitro yn dangos y caiff llawer o'r targedau dangosydd a chanlyniadau monitro eu cyflawni. Rhai o'r canfyddiadau mwyaf sylweddol yng nghyswllt hyn yw:

- Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud tuag at weithredu'r strategaeth ofodol.
- Caiff targedau polisi tai fforddiadwy a nodir ym Mholisi S4 eu cyflawni fel arfer yng nghyswllt caniatâd cynllunio a roddwyd yn y prif drefi a'r prif bentrefi.
- Mae gan y Cyngor gyfanswm o 41.8ha o dir cyflogaeth ar gael, gan ddangos y cedwir digon o dir cyflogaeth i gyflawni'r gyfradd defnydd a ddynodwyd.
- Bu cynnydd yn nhermau caniatâd cyflogaeth o fewn y Sir, gyda chaniatâd wedi ei roi ar gyfer ystod o ddefnyddiau cyflogaeth ar safleoedd busnes a diwydiannol a ddynodwyd (SAE1), safleoedd cyflogaeth a ddiogelwyd (SAE2) a safleoedd heb eu dyrannu (cyfanswm o 4.48 hectar). Roedd y rhain yn bennaf yng Nglannau Hafren. Rhoddwyd caniatâd hefyd ar gyfer 3.72 hectar o dir yn safle defnydd cymysg strategol y Cynllun Datblygu Lleol yn Heol Wonastow, Trefynwy.
- Cymeradwywyd nifer o gynlluniau arallgyfeirio gwledig a menter gwledig (10).
- Cymeradwyodd y Cyngor gynigion ar gyfer cyfanswm o 10 cyfleuster twristiaeth, 8 ohonynt yn ymwneud â llety twristiaid. Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn golygu colli cyfleusterau twristiaeth.
- Mae cyfraddau lleoedd gwag yn ardaloedd siopa canolog holl drefi a chanolfannau lleol y Sir yn parhau'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Mae'r gyfran o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn prif ffryntiad siopau yn gyffredinol yn cydfynd â'r trothwyon a ddynodwyd yng Nghanllawiau Datblygu Atodol prif ffryntiad siopau.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i gyfanswm o 5 cyfleuster cymunedol a hamdden ac ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn golygu colled cyfleusterau cymunedol/hamdden.
- Ni chollwyd unrhyw adeiladau rhestredig neu safleoedd hanesyddol ac ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol.
- Gwneir cynnydd tuag at y cyfanswm capasiti rheoli gwastraff ar gyfer cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol ac ni fu unrhyw ostyngiad yn y banc tir mwynau.

- Caniatawyd cyfanswm o 8 cynllun yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle (ac eithrio deiliad tŷ, newid defnydd a defnydd amaethyddol).

- Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau mewn ardaloedd gorlifdir C1/C2 nad oedd yn cyflawni profion TAN15.

Fodd bynnag, mae nifer o dargedau dangosydd polisi allweddol a chanlyniadau monitro'n ymwneud â darpariaeth tai nad yw'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Y canfyddiadau mwyaf arwyddocaol yng nghyswllt hyn yw:

- Cofnodwyd cwblhau cyfanswm o 234 o anheddau newydd (marchnad gyffredinol a fforddiadwy) yn ystod y cyfnod monitro presennol. Mae hyn, ynghyd â'r 205 annedd a gwblhawyd a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, yn gyfartal â chyfanswm o 439 o anheddau newydd ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae hyn yn sylweddol is na'r targed a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol o gwblhau 488 y flwyddyn.

- Cofnodwyd cwblhau cyfanswm o 63 o anheddau fforddiadwy yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae hyn, ynghyd â'r 17 o anheddau fforddiadwy a gwblhawyd a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro presennol, yn gyfanswm o 80 anheddau fforddiadwy wedi eu cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae hyn yn sylweddol is na'r targed a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol o gwblhau 96 annedd fforddiadwy bob blwyddyn.

- Mae Cyd Astudiaeth Argaeledd Tir Tai Sir Fynwy am y cyfnod 2015-16 yn dangos fod gan y Sir gyflenwad o 4.1 mlynedd o dir tai (yn seiliedig ar y fethodoleg weddilliol a nodwyd yn TAN1).

- Bu'r cynnydd yn gyfyngedig ar gyflawni safleoedd tai strategol dynodedig. Ac eithrio safle Heol Wonastow, nid oes dim o'r safleoedd strategol wedi cael caniatâd cynllunio ers mabwysiadu'r Cynllun. Rhoddir cynnydd ar gyflenwi safleoedd tai strategol y Cynllun Datblygu Lleol yn yr adran dadansoddi polisi ar gyfer Polisi S3.

- Roedd nifer yr anheddau a gafodd caniatâd ac a gafodd eu cwblhau mewn aneddiadau yng Nglannau Hafren yn sylweddol is na'r targedau a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Dengys hyn nad yw polisïau allweddol darpariaeth tai y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni fel y disgwylid ac mae'r diffyg dilynol o gyflenwad tir tai 5 mlynedd yn fater o gonsyrn. Y ffactor sylfaenol sy'n cyfrannu at y diffyg hwn yw'r cynnydd arafach na'r disgwyl yn y safleoedd tai strategol dynodedig, er bod cynnydd yn cael ei wneud wrth ddod â'r safleoedd hyn rhagddynt ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu na fedrir cyflawni'r dyraniadau (fel y manylir yn Adran 5 yr Adroddiad Monitro Blynyddol), Serch hynny, mae'r gyfradd cyflenwi arafach na'r disgwyl yn awgrymu bod angen dyraniadau safleoedd ychwanegol.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 27 Medi, 2016 am 1.00 pm**

Gwybodaeth Cyd-destun

Mae Adran 3 o'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhoi dadansoddiad o'r deunydd cyd-destun perthnasol a gyhoeddwyd ers mabwysiadu'r Cynllun ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ynghyd â thueddiadau economaidd cyffredinol. Daw hyn i'r casgliad nad yw'r newidiadau a ddynodwyd hyd yma yn awgrymu bod angen adolygiad cynnar o'r Cynllun.

Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG)

Gwnaed cynnydd wrth baratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol i helpu hwyluso dehongliad a gweithrediad polisi'r Cynllun Datblygu Lleol. Rhoddir manylion hyn yn Adran 3 yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Bydd y gwaith o baratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn parhau yn y cyfnod monitro nesaf.

Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd

Mae Adran Chwech yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ehangu ar yr asesiad o berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu ag Amcanion Monitro’r Gwerthusiad Cynaliadwyedd, gan roi datganiad safle tymor byr ar berfformiad y Cynllun o gymharu â nifer o ddangosyddion cynaliadwyedd. Mae gorgyffwrdd rhwng rhai o ddangosyddion y Cynllun Datblygu Lleol a'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn helpu i ddangos sut mae'r ddwy broses monitro yn rhyng-gysylltu.

Casgliadau ac Argymhellion

Mae Adran Saith yn nodi casgliadau ac argymhellion yr Ail Adroddiad Monitro Blynyddol. Daw Adroddiad 2015-16 i'r casgliad, er y gwnaed cynnydd da wrth weithredu llawer o bolisïau'r Cynllun a bod y strategaeth yn gyffredinol yn parhau'n gadarn, nad oes nifer o dargedau polisi allweddol darpariaeth tai yn cael eu cyflawni sy'n dangos nad yw'r polisïau hyn yn gweithredu yn ôl y bwriad. Mae diffyg cyflenwad 5 mlynedd o dir tai yn fater o bryder sydd angen ei drafod os yw gofynion tai'r Cynllun i gael eu cyflawni.

Felly ystyrir bod angen adolygiad cynnar o'r Cynllun Datblygu Lleol oherwydd y diffyg mewn cyflenwad tir tai. Gan nad oes unrhyw bryderon gyda pholisïau eraill y Cynllun ar hyn o bryd, daw'r Adroddiad Monitro Blynyddol i'r casgliad na ystyrir bod angen adolygu agweddau eraill o'r Cynllun ar hyn o bryd. Felly, mae'r Adolygiad Monitro Blynyddol yn argymell adolygiad cynnar o Gynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy fel canlyniad i'r angen i drin y diffyg yn y cyflenwad tir tai a hwyluso dynodi a dyrannu tir tai ychwanegol. Bydd hyn yn golygu y bydd angen cynhyrchu adroddiad adolygu fydd yn nodi ac esbonio cwmpas y diwygiad sydd ei angen ar y Cynllun. Mae'r adolygiad o'r Cynllun yn debygol o gynnwys dynodi/dyrannu safleoedd ychwanegol hyfyw a rhwydd eu cyflwyno i hybu'r cyflenwad tir.

Argymhellir ymhellach bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r gofynion statudol. Cyhoeddir hyn ar wefan y Cyngor a rhoddir cyhoeddusrwydd iddo drwy gyfrif Twitter yr Adran Cynllunio.

Camau Nesaf

Bydd y Cynllun yn parhau i gael ei fonitro ar sail flynyddol drwy baratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol, gyda strwythur bras yr Adroddiad yn parhau'r un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn ei gwneud yn rhwydd dadansoddi adroddiadau dilynol.

Ystyrir bod angen adolygiad cynnar oherwydd pwysigrwydd y mater cyflenwi tir, fel y nodir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Byddai hyn hefyd yn cynorthwyo wrth geisio osgoi 'cynllunio drwy apêl' a datblygiad ad hoc yn dod ymlaen tu allan i system y cynllun datblygu heb fod yn cyd-fynd gyda strategaeth y Cynllun. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y bydd mabwysiadu dull pragmatig i benderfynu ceisiadau ymadawiad ar gyfer safleoedd datblygu preswyl yn gymorth yn y cyd-destun hwn.

Mae'r Rheoliadau yn caniatáu 'adolygiad dethol' o ran (neu rannau) o Gynllun Datblygu Lleol. Byddai darpariaeth o'r fath yn caniatáu adolygiad rhannol o'r Cynllun i gynnwys materion yn gysylltiedig gyda chyflenwad tir tai a dewis safle, yn unol ag argymhellion yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddechrau adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol bob pedair blynedd. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid dechrau adolygiad llawn i gyflawni gofynion statudol ym mis Chwefror 2018 Ystyrir, felly, y byddai'n fwy addas dechrau adolygiad i ystyried pob agwedd o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cam hwn er mwyn asesu'n llawn beth yw natur a maint y diwygiadau y gallai fod eu hangen. Bydd adolygiad cynnar llawn hefyd yn cynorthwyo wrth gyrraedd amserlen 2012 ar gyfer cael Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig wedi'i fabwysiadu yn ei le i osgoi'r gwagle polisi lleol y mae'r Rheoliadau newydd yn bygwth ei greu.

Bydd angen paratoi Adroddiad Adolygu i ddechrau adolygiad o'r Cynllun. Dylai hyn nodi'n glir yr hyn a ystyriwyd, gyda pha randdeiliaid allweddol yr ymgysylltwyd a, lle mae angen newidiadau, beth sydd angen ei newid a pham, yn seiliedig ar dystiolaeth; yn cynnwys materion, amcanion, strategaeth, polisïau a'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd, yn ogystal â goblygiadau diwygiadau disgwyliedig ar unrhyw rannau o'r Cynllun na chynigir ei diwygio. Mae'n rhaid iddo hefyd ddod i gasgliad ar y weithdrefn ddiwygio a gaiff ei dilyn h.y. dull llawn neu fyr. Gall adroddiad adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ddod i'r casgliad fod y materion dan sylw o ddigon o arwyddocâd i gyfiawnhau dilyn y weithdrefn ddiwygio lawn. Fel arall, mae gweithdrefn ddiwygio dull byr ar gael ar gyfer amgylchiadau lle nad yw'r materion dan sylw o ddigon o arwyddocâd i gyfiawnhau cynnal y weithdrefn ddiwygio lawn. Efallai mai'r weithdrefn ddiweddaraf yw'r fwyaf addas yn yr achos hwn, o gofio mai'r prif fater yw'r diffyg yn y cyflenwad tir, ond caiff hyn ei benderfynu drwy'r dadansoddiad a gynhelir ar gyfer yr Adolygiad.

Gwneir adroddiad i'r Cabinet yn gofyn am benderfyniad ffurfiol i ddechrau adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol. Rhoddir adroddiad i'r Cabinet am unrhyw sylwadau o'r Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu. Os byddai'r Cabinet yn cytuno ar yr argymhellion i ddechrau adolygiad o'r Cynllun, byddid yn cynhyrchu adroddiad adolygu Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer adroddiadau gwleidyddol yn y dyfodol, yn nodi'r argymhelliad ar gyfer y math o ddiwygiad Cynllun (llawn neu fyr). Byddai angen i'r penderfyniad hwnnw ystyried amserlenni, ffit a'r berthynas gyda gwaith a ddaw i'r amlwg ar Dyfodol Sir Fynwy, Dêl Dinas Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chynllun Datblygu Strategol De Ddwyrain Cymru.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 27 Medi, 2016 am 1.00 pm**

**<u>Craffu gan Aelodau:</u>**

Ar ôl craffu'r Adroddiad, nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd parthed tir ddim yn dod ymlaen a diffyg cyflenwad, nodwyd fod cyfres o ffactorau yn gysylltiedig. Dyrannwyd safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag y rhesymau am hyn yw:

  - Materion marchnad allanol.
  - Sut y caiff cyflenwad tir tai ei gyfrif.
  - Mae rhai o'r safleoedd strategol ar wahanol gamau yng nghyswllt caniatâd cynllunio. Cynhaliwyd trafodaeth gadarn gydag ymgeiswyr am faterion hyfywedd.
  - Felly mae nifer o resymau, gyda llawer ohonynt heb fod o fewn rheolaeth yr Adran Cynllunio.

- Bydd yr adolygiad yn edrych ar y polisïau a dynodi os ydynt yn gweithio ac edrych sut mae'r polisïau'n cysylltu â'i gilydd. Mae'r adolygiad wedyn yn argymhell p'un a gynhelir adolygiad ai peidio.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am adolygiadau barnwrol ar y safleoedd yn Lloegr yn agos at y ffin gyda Sir Fynwy, nodwyd na chaiff y rhain eu hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio. Nid yw'r angen tai yno o fewn yr angen tai ar gyfer ein hardal farchnad neu ran o angen tai Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy. Mae adolygiadau barnwrol yn risg a ystyrir gan yr Awdurdod Cynllunio, yn neilltuol yng nghyswllt y cynlluniau mawr.

- Caiff yr adolygiad anghenion tai ei asesu sy'n edrych ar yr angen am dai fforddiadwy. Bydd yr adolygiad nesaf yn dechrau ym mis Ebrill 2017. Caiff unrhyw ganlyniadau eu bwydo i'r Cynllun Datblygu Lleol.

- Mae'r angen tai ehangach yn her i ddal lan â hi felly mae angen edrych ar ymestyn y cynllun. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o gyllid grant ar gael a bydd yr Awdurdod yn ceisio manteisio ar hyn.

- Mynegodd Aelod o'r Pwyllgor bryder fod problemau yng nghyswllt sicrhau tir adeiladu a thir datblygu ar gyfer busnesau. Cafodd llai na 50% o'r tai eu cwblhau a hefyd cafodd llai na 50% o'r tai fforddiadwy eu cwblhau. Ni chodwyd unrhyw dai ar safle strategol a dim ond un busnes aeth ar safle strategol. Gallai'r cynnig i ddarparu safleoedd ychwanegol gael effaith niweidiol mewn rhai ardaloedd megis Trefynwy gan y gwaethygir y problemau presennol gyda seilwaith a thrafnidiaeth. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lle y bydd bob amser fwlch amser ar ddod â safleoedd mwy yn eu blaen.

- Gallai gymryd tua dwy flynedd i orffen adolygiad llawn.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 27 Medi, 2016 am 1.00 pm**

| **<u>Casgliad y Pwyllgor:</u>**<br><br>**Trafododd y Pwyllgor y Cynllun Datblygu Lleol a'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn fanwl a chytunodd y dylid cyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru. Ymhellach cefnogodd aelodau yr argymhelliad i ddechrau'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol. Derbyniodd y Pwyllgor y byddai'r adolygiad yn penderfynu os nes angen diwygiadau'r Cynllun Datblygu Lleol a chytunodd aros gasgliadau'r adolygiad y rhoddir adroddiad arno i'r pwyllgor dethol. Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad diweddaru maes o law ar yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, ynghyd â rhestr o ardaloedd perthnasol. Gofynnodd aelodau hefyd am ddod â chanllawiau cynllunio atodol ar dai fforddiadwy i gyd-gyfarfod craffu gyda Phwyllgorau Dethol Cymunedau Cryf ac Oedolion ar yr amser priodol.** |
|---|

4. **<u>Adroddiad Perfformiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio Sir Fynwy 2015-16.</u>**

**<u>Cyd-destun:</u>**

Rhoi adroddiad ar berfformiad y gwasanaeth Cynllunio am y cyfnod 2015-16.

Gwahoddwyd y Pwyllgor Cynllunio i fynychu'r cyfarfod wrth ochr y Pwyllgor Dethol i graffu'r adroddiad.

**<u>Materion Allweddol:</u>**

Mae gwaith y gwasanaeth cynllunio'n cysylltu'n uniongyrchol gydag amcan Cyngor Sir Fynwy o sicrhau cymunedau cynaliadwy a chydnerth. Mae'r gwasanaeth yn ymwneud yn uniongyrchol gyda phrosiectau corfforaethol ehangach fel Ysgolion 21ain Ganrif, rhesymoli ein portffolio stadau ac mae'n rhan ganolog o'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar Dyfodol Sir Fynwy.

Mae meysydd allweddol gwaith ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio yn cynnwys:

- Darparu cyngor cyn gwneud cais i gwsmeriaid.
- Penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â pholisi a fabwysiadwyd ac ystyriaethau cynllunio sylweddol, gan roi ystyriaeth i sylwadau rhanddeiliaid ac amcanion corfforaethol.
- Sicrhau cyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr i wrthbwyso gofynion seilwaith datblygiadau newydd a diwallu'r angen am dai fforddiadwy.
- Diogelu 2400 Adeilad Rhestredig a 31 Ardal Gadwraeth y Sir, ardaloedd o sensitifrwydd archeolegol, Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Ardaloedd Diogelu Arbennig ac Ardaloedd Arbennig Cadwraeth Ewropeaidd.

- Cymryd camau gweithredu gorfodaeth cadarn yn erbyn datblygiad annerbyniol heb awdurdod.

- Codi ymwybyddiaeth o rôl statudol a phwysigrwydd fframwaith cynllunio defnydd tir, gan adeiladu ar y lefelau uchel o ymgysylltu sy'n sail i'r broses Cynllun Datblygu Lleol.

- Paratoi canllawiau cynllunio atodol (SPG) i gynorthwyo gyda gweithredu a dehongli polisi'r Cynllun Datblygu Lleol.

- Gweithredu Cynllun Datblygu Lleol y Cynllun drwy ymgysylltu a gweithio gyda chymunedau, a gweithio partneriaeth gyda phartneriaid mewnol ac allanol i feithrin cyd-greu a thwf menter a llesiant cymunedol ac amgylcheddol. Bydd hyn yn cynnwys ymwneud gyda gwaith Lle Cyfan a'r Cynllun Llesiant Lleol.

- Monitro a gwerthuso polisïau'r Cynllun a'r broses o baratoi'r Cynllun.

**Adborth gwasanaeth cwsmeriaid**

Rhwng 2010 a 2012 cynhaliwyd adolygiad Meddwl Systemau ar wasanaeth cynllunio'r Cyngor. Ceisiodd yr adolygiad fynd â'r swyddogaeth yn ôl i'r egwyddorion cyntaf: yr hyn sy'n bwysig i'n cwsmeriaid a sut y gellir dileu gwastraff (gweithredoedd neu weithdrefnau nad ydynt yn ychwanegu gwerth i'r canlyniad). Cafodd yr adolygiad seiliedig ar dystiolaeth yma ei weithredu'n llawn, er bod rhan o'r dull Meddwl Systemau angen i wasanaethau gael eu hadolygu'n gyson a'u monitro'n agos.

Dynododd yr arolwg fod y pethau dilynol yn bwysig i gwsmeriaid:

- Mae cwsmeriaid yn gwerthfawrogi cyngor cyn gwneud cais a chyngor pan fydd y cais yn cael ei ystyried.

- Maent eisiau i swyddogion fod yn hygyrch a chyfathrebu agored ac onest.

- Maent eisiau cysondeb mewn cyngor cyn gwneud cais ac wrth ddilysu ceisiadau.

- Maent eisiau i'r Pwyllgor Cynllunio ddilyn argymhelliad y swyddog ac yn gwerthfawrogi medru cael dialog gydag Aelodau cyn penderfyniad.

- Nid ydynt eisiau gosod gormod o amodau ar benderfyniadau, a phan osodir amodau, dylent fod yn berthnasol a rhwydd eu gweithredu.

- Maent yn gwerthfawrogi medru cyflwyno cais ar-lein a chwilio am geisiadau a gwybodaeth ar-lein.

- Mae trydydd partïon yn gwerthfawrogi cael eu clywed yn ystod y broses gais.

Mae'r gwasanaeth felly'n gweithredu gyda'r blaenoriaethau hyn fel egwyddorion llywio, gan lunio ymddygiad a gweithdrefnau. Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i fod â ffocws ar ganlyniadau yn hytrach na mynd ar ôl targedau perfformiad nad ydynt yn flaenoriaeth i gwsmeriaid yr Adran.

**Craffu aelodau:**

Nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Gellid ychwanegu dangosydd perfformiad ychwanegol at yr adroddiad, sef y canran o geisiadau a ddirprwyir i swyddogion i'w penderfynu. Hysbysodd y Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lle y Pwyllgor y byddai'n rhoi manylion yr wybodaeth yma i Aelodau.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, roedd y Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lle yn gwerthfawrogi'r Pwyllgor Cynllunio fel 'cyfaill beirniadol;' gyda swyddogion â pherthynas waith dda gyda'r pwyllgor hwnnw.

- Mae holl Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn derbyn hyfforddiant gorfodol cyn gwasanaethu ar y pwyllgor, fel y nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau. Cynhelir y daith ddylunio flynyddol lle mae'r Pwyllgor Cynllunio ynghyd â swyddogion yn ymweld â datblygiadau wedi eu cwblhau lle cafodd y ceisiadau cynllunio eu cymeradwyo gan y Pwyllgor. Gall y Pwyllgor hefyd ddysgu o benderfyniadau apeliadau.

**Casgliad y Pwyllgor:**

**Trafododd y Pwyllgor berfformiad y gwasanaeth cynllunio yn unol â'r adroddiad blynyddol a chydnabu fod y swyddogaeth yn perfformio'n dda ac yn rhagori ar dargedau Llywodraeth Cymru. Fel enghraifft, nododd aelodau fod perfformiad cenedlaethol ar feysydd megis bodlonrwydd cwsmeriaid yn gymharol isel ac felly bod angen gwella'n barhaus tu hwnt i ffigur meincnod cyfartalog Cymru. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod cyfyngiadau adborth arolwg cwsmeriaid ac nid yw cymhwysedd rhai o'r dangosyddion perfformiad yn ei gwneud yn bosibl cael darlun llawn o'r perfformiad mewn rhai meysydd o'r gwasanaeth a chydnabod fod rhai dangosyddion yn ddangosyddion statudol, maent wedi cefnogi unrhyw ychwanegiadau y gellid eu gwneud i fesur a chofnodi perfformiad. Cefnogodd aelodau y tri cham gweithredu yn yr adroddiad a gofynnodd am ddod ag adroddiadau yn y dyfodol i'w craffu gan y Pwyllgor.**

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 27 Medi, 2016 am 1.00 pm**

**5. Datganiad Rhagolwg Alldro Cyfnod 1 2016/17 Arolygu Cyllid a Chyfalaf**

**Cyd-destun:**

Rhoi gwybodaeth ar ragolwg sefyllfa alldro refeniw'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod 1 sy'n cynrychioli gwybodaeth ariannol mis 2 ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17. Daethpwyd â rhagolygon refeniw a chyfalaf ymlaen gan fis yn erbyn yr amserlen arferol i roi gwybodaeth ariannol berthnasol i Aelodau cyn gwyliau'r haf.

**Argymhellion a gynigiwyd i'r Cabinet**

(i) Bod y Cabinet yn nodi maint rhagolwg gwariant refeniw yng nghyfnod 1 o £1.37 miliwn.

(ii) Bod y Cabinet yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Swyddogion roi gwybodaeth ar sut y deuir â'r sefyllfa gorwariant yn ôl o fewn y gyllideb, yn cynnwys cynlluniau amgen i sicrhau'r arbedion o £301,000 o orfodwyd y dywedir na fedrir eu cyflawni yn yr adroddiad monitro nesaf.

(iii) Bod y Cabinet yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwyr adolygu lefelau gorwariant a thanwariant ac ailddyrannu cyllidebau i ostwng maint sefyllfaoedd gwneud iawn sydd angen eu hadrodd cyn mis adroddiadau mis 6.

(iv) Bod y Cyngor yn gwerthfawrogi maint y defnydd o ragwelir o gronfeydd cadw ysgolion a'r disgwyliad y bydd 13 ysgol mewn sefyllfa ddiffyg erbyn diwedd 2016-17.

(v) Bod y Cabinet yn ystyried y monitro cyfalaf sy'n arddangos amrywiad bach yn unig i'r gyllideb fel canlyniad i gymeradwyaeth ddiweddar y Cabinet a'r Cyngor ar Dŷ Caerwent.

(vi) Bod y Cabinet yn cydnabod y risg yn gysylltiedig gyda gorfod dibynnu ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf yn y flwyddyn a ddisgwylir a'r potensial i hyn gael pwysau refeniw sylweddol os caiff derbyniadau eu hoedi ac y gall fod angen benthyca dros dro.

**Craffu aelodau:**

Ar ôl ystyried yr Adroddiad, mynegodd y Pwyllgor Dethol ei gefnogaeth ar gyfer yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cabinet.

**Casgliad y Pwyllgor**

Bod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 27 Medi, 2016 am 1.00 pm**

6. **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu.**

Craffwyd ar Flaenraglen gwaith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu. Wrth wneud hynny, ychwanegid yr eitemau dilynol at y rhaglen waith.

- Diweddariad ar y Ddêl Dinas.
- Diweddariad Skutrade.
- Diweddariad ar CMC2 - cyfarfod y Pwyllgor Dethol ar 24 Tachwedd 2016.

7. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu ddydd Iau 13 Hydref 2016 am 10.00am.

**Y cyfarfod i ben am 3.30pm.**